# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dydd Gwener, 27 Mawrth 2015

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, D R Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, Carwyn Jones, H E Jones, R G Parry OBE, J A Roberts |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Proffesiwn – Adnodau Dynol<br>Swyddog Adnoddau Dynol (DB)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Jeff M. Evans |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Dim |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol :-**

**"Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni fel y diffinnir yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**3 APWYNTIO STAFF**

**Prif Weithredwr**

Rhoddwyd 1 ymgeisydd ymlaen i'w gyfweld yn dilyn adborth o'r proses penodi. Rhoddodd yr ymgeisydd gyflwyniad ac atebodd gwestiynau ar y cyflwyniad ac wedyn atebodd gyfres o gwestiynau gan holl Aelodau'r Pwyllgor.

Yn dilyn cyfweliad **PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn bod Dr. Gwynne Jones yn cael ei benodi i'r swydd uchod o 1 Mehefin 2015.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**